

Theatr
Iolo

Pwnc Pedwar

Dialog a Iaith



Beth ydi Dialog?

Dialog ydi'r sgwrs rhwng cymeriadau, neu'r sgwrs mae cymeriadau'n ei chael yn uniongyrchol â chynulleidfaoedd.

Mae'r sgwrs rhwng cymeriadau'n rhan bwysig o ddrama.

Yn aml iawn, er nad bob amser, dyma sut y byddwn ni'n deall pethau ynghylch y cymeriad/au a'r stori.

Rhowch gynnig ar greu ffeil ffeithiau i'ch cymeriad neu ddewis ffeithiau amdanoch chi'ch hun.

Gallai'r ffeithiau yma gynnwys:

- Pwy sydd yn ei deulu?
- Ymhle mae'n byw?
- Faint ydi ei oed?
- Beth ydi ei enw? ac a ydi'n hoffi ei enw?
- Beth ydi ei ddiddordebau?
- Ar be mae'n giamstar?
- Be sy'n ei boeni neu'n peri pryder iddo?
- Oes yna broblem mae gofyn iddo'i datrys?

Cyn i'r ddrama ddechrau fydd y gynulleidfa'n gwybod dim am y cymeriad yma.

Yn amlach na heb, fe ddôn nhw i wybod am eich cymeriad/au drwy be sy'n cael ei ddweud yn y ddrama.



Sut i ddefnyddio gwahanol fathau o Ddialog

Fe allech chi wneud hyn yn y ffyrdd sy'n dilyn:



Bydd y prif gymeriad yn dweud wrth y gynulleidfa ei hun, yn siarad â nhw'n uniongyrchol mewn **ymson** (sef cymeriadau'n siarad heb i neb arall dorri ar draws, neu pan fyddan nhw ar eu pennau'u hunain).



Bydd un o'r cymeriadau eraill yn sôn am y llall, pan na fydd y llall yno. Gallai hyn fod yn aelodau o'r teulu neu'n ffrindiau gorau.



Bydd y gynulleidfa'n cyfarfod y prif gymeriad mewn golygfa yn sgwrsio â chymeriad arall. Yn y ddialog yma, bydd y gynulleidfa'n dod i wybod rhai ffeithiau amdano, ei sefyllfa a'i bersonoliaeth.

Enghraifft 1

*Tom yn cerdded i'r llwyfan, ac edrych allan ar y gynulleidfa.
Mae'n gwenu, ac wedyn yn dechrau sgwrsio â nhw.*

TOM: Helô! Tom ydw i. Tomasina ydi f'enw llawn i ond mae mam yn pallu galw fi'n ddim byd arall. Fi'n gweud thochi. Ma ddi'n benwan. Ydi'ch mam chi'n benwan hefyd? Ta beth, galwodd mam fi'n Tom achos fu farw'n wncwl i cyn i fi gael fy ngeni ac odd hi moyn cofio amdano fe drwyddo i ne rwbeth twp, felly galwodd hi fi'n enw bachgen ac achos 'ny ma pawb *wastad* yn gneud jôcs amdana i. Hyd yn oed mam. Ma pobol wastad yn dechre canu caneuon Tom Jones pryd bynnag walan nhw fi'n dod, fel Delilah ac It's Not Unusual a felly mla'n. Ma newydd ddigwydd, y funed hon, cyn i fi ddod i lapan â chi. Fi rîl wedi danto. Weda i wrtho chi, Fi wedi ca'l llond bola....



Be ydi'r holl bethau wyddon ni'n awr am Tom ar ôl yr araith yma?

Be ydi'r holl bethau rydyn ni'n *meddwl* ein bod yn eu gwybod am Tom ar ôl yr araith yma?

Be feddyliwch chi fydd yn digwydd nesaf i Tom pan welwn ni hi nesaf, a be wnaiff hi?

Enghraifft 2

Y goleuadau'n dod i fyny ar gegin fodern. CERYS (34, egniol, dim lol) yn brysur yn coginio. CHRIS (36, meddylgar, cellweiriwr) yn crafu bêtws mwdlyd â chylllell gegin.

CERYS yn siarad heb weld CHRIS

CERYS: I think it's ridic'ulous...Wanting a party on the internet...Sausage rolls, trifle....

CHRIS: I know love

CERYS: Crisps, sandwiches...I've got to deliver the lot. Contactless. To the door. Fourteen buffets

CHRIS: I know love

CERYS: Stop sayin' "I know love"

CHRIS: I know...

CERYS: Are you *listenin'* to me?

Mae'n troi i edrych arno. Yn methu credu beth mae'n ei weld

CERYS: What are you *doing*? This is a kitchen table! Go outside and do that.

Chris yn codi

CERYS: And you can take all these parcels round yourself

CHRIS: But ...I....

CERYS: You haven' got rugby practice Chris, it' s lockdown. And *you* told your eight year old daughter that she could have a full birthday party on Zoom together with *fourteen* friends, so *you*, mate, can deliver it. Either that or *you* can tell 'er it's not happenin', and deal with the fallout. Your choice, Chris!

Curiad. Chris yn cnoi cil.

CHRIS: I'll bring the car up to the back door...



Be wyddon ni am y teulu ar ôl yr olygfa yma?

Be wyddon ni am Tom ar ôl yr olygfa yma?

Be ydyn ni'n *meddwl* ein bod yn deall neu be ydyn ni'n ei ddyfalu am Tom a'i theulu ar ôl yr olygfa yma?

Enghraifft 3

Tom a'i brawd bach Dewi yn rhedeg i'r llwyfan. Wedi colli'u gwynt a chael ysgytwad.

DEWI: Wow!.. Weles ti 'na?

TOM: Paid gweutho Mam, ok?

DEWI: Ie, ond Tom...

TOM: Tomasina. I ti. Neu Miss.

DEWI: Sa i'n myn i alw ti'n Miss.

TOM: Whatev's. So ti'n cael gweud wrth Mam bod ni wedi gweld

DEWI: ...Alien yn glanio yn y coed! Fi yn. Fi'n mynd i weutho pawb...

TOM: Gweud ti wrth *unrywun* a bydd Mam yn ffindo mas...

DEWI: Bydda i'n rili gofalus. Bydd hi byth yn gwybod

TOM: Sdim ots Dewi, bydd hi jest yn gwybod. A wedyn a bydd hi'n groundo ni am

fis arall a bydd rai o ffrindie stiwpid ti wedi gneud rywbeth stiwpid fel lladd yr alien

neu rywbeth

DEWI: Bydde nhw ddim

TOM: Naethon nhw lladd hamster fi Dewi so...

DEWI: Dim ar bwrpas

TOM: Os ti'n gweutho Mam bydda i'n gweutho hi'n *union* beth ddigwyddodd i hamster fi a byddi di ddim yn cael mynd mas i where am pum mlynedd. Ok?

Yn gyndyn, Dewi'n nodio.

Be gawn ni wybod am y stori yn ystod yr olygfa yma?

Gawsoch chi wybod rhagor drwy'r enghraifft yma o'i chymharu â'r ymson?

Defnyddiwch y ffeil grëoch chi i'ch cymeriad a rhoi cynnig ar sgrifennu golygfa agoriadol gyda dialog sy'n rhoi lle i ni ddod i nabod y cymeriad, ei fyd a'i sefyllfa.

Meddyliwch sut y gallai'r gynulleidfa ddilyn y stori a dod i ddeall y problemau mae'n eu hwynebu.

TIP ARDDERCHOG: Y ddialog sy'n mynd â'r stori yn ei blaen. Y sgwrs rhwng cymeriadau, neu'r sgwrs mae'r cymeriadau'n ei chael â'r gynulleidfa, ydi'r ffordd mae'r stori'n mynd yn ei blaen.



Problemau gyda Dialog

Un o'r problemau mwya cyffredin sy'n digwydd pan fyddwch chi'n sgrifennu dialog yw na dydi hi ddim yn swnio fel mae pobl yn siarad go iawn.

Fe allai fod yna lawer o resymau dros hyn.

- Efallai eich bod yn gwneud i'ch cymeriadau siarad fel petaen nhw mewn ffilm neu ddrama rydych wedi'i gweld ar y teledu yn hytrach na'r ffordd y byddech chi eich hun yn siarad.
- Efallai eich bod yn defnyddio cymeriadau i egluro'r sefyllfa i gynulleidfa, felly dydi be maen nhw'n ei ddweud ddim yn teimlo'n real.
- Efallai bod cymeriadau jest yn siarad, heb fod arnyn nhw eisiau neu angen dim byd.

Er enghraifft:

Dychmygwch ein bod ni'n mynd i sgrifennu golygfa o gwmpas y bwrdd brecwast. Mae Dewi a Tom yn ceisio meddwl am be i'w wneud, ond does arnyn nhw ddim eisiau gwneud hynny'n rhy amlwg rhag ofn i'w rhieni eu clywed nhw.

Dewch i ni wneud pethau ychydig yn anos iddyn nhw (am fod hynny bob amser yn beth da mewn drama) drwy ddweud ei bod yn ddiwrnod mabolgampau'r ysgol ac mae gofyn iddyn nhw hel eu pac cyn amser ysgol.



Problemau gyda Dialog

Cerys yn rhuthro o gwmpas yn paratoi popeth at yr ysgol. Chris yn cuddio'r tu ôl i bapur newydd gyda'r pennawd STRANGE RUMBLING NOISES IN SMALL TOWN. Dewi a Tomasina yn ceisio penderfynu beth i'w wneud

TOM: Bydd raid inni gael e i'r llong-ofod erbyn un neu ni gyd yn mynd i farw.

DEWI: Ie, fi'n gwybod. O'dd e wir yn scary do'dd e?

CHRIS: *(yn gollwng ei bapur newydd)* This story about the rumbling noises in the small town is very worrying, don't you think Cerys?

CERYS: Yes, it feels as if there is something very strange, almost out of this world, going on. Blant, sganddo chi eich stwff yn barod ar gyfer y mabolgampau sy'n digwydd pnawn ma lawr wrth lan y môr?

CHRIS: Why are you speaking Welsh to the children, Cerys?

CERYS: Well, it's because I can speak Welsh and so can the children because they go to a Welsh medium school but you've never learnt.

TOM: *(yn sibrawd yn ffyrnig)* Bydd raid iti weud wrth Mam bo ti'n dost fel bod ti'n gallu aros gatre a wedyn byddi di yn gallu mynd a'r alien i'r llongofod erbyn un i stopio ni gyd rhag cael ein lladd.

Sut allech chi wneud yr olygfa fach yma'n gryfach ac yn fwy real?

Oes yna ormod o bwyslais ar wneud i ni ddeall y cefndir a dim digon ar ddangos y sefyllfa i ni fel byddai hi go iawn?

Ail-sgrifennwch yr olygfa yma gan wneud yr un pwyntiau i gyd ond heb egluro gormod ar ddim byd a gan wneud i'r cymeriadau i gyd siarad mor naturiol ag y bo modd.

Cofiwch fod Cerys yn brysur iawn, bod gan Chris fwy o ddiddordeb yn ei bapur newydd na dim byd arall a bod gofyn i Tom a Dewi wneud cynllun fel y gallan nhw achub y pentre heb i Mam a Dad ddod i wybod.



TIP ARDDERCHOG:
Cadwch bob llinell yn fyr.

Defnyddio Dialog ar gyfer Eisiau ac Angen

Mae'n *rhaidd* i gymeriad fod ag eisiau rhywbeth neu fel arall fyddai dim byd byth yn digwydd yn y ddrama.

Felly'r hyn mae ar y cymeriad **eisiau** sy'n gwthio'r sgwrs rhwng pobl, ond pan fydd arnoch chi eisiau rhywbeth, mae yna wahanol ffyrdd o'i gael.

Dychmygwch fod ar Dewi eisiau beic newydd ar ei ben-blwydd.

Be sy'n digwydd pan fydd yn gofyn i'w dad yn union?

DEWI: Dad. Can I have a bike for my birthday?

CHRIS: No. You can't. I'm not made of money.

Golygfa fer iawn fyddai hon. Os ydi Dewi'n sâl eisiau beic, mae rhaid iddo fe weithio tipyn yn galetach i gael be sydd arno eisiau. Fe allai roi cynnig ar hyn:

DEWI: Dad... Shall I help you wash the car tomorrow?

CHRIS: That's nice of you, yes.

DEWI: And if you like I could take the dog for a walk too. I don't mind doing the poop a scoop, and I know you don't like it...

CHRIS: What d'you want? Is it still that bike? I've told you...

DEWI: You're not made of money, I know.

Mae cynllun Dewi'n cychwyn yn dda yma ond wedyn mae'n ei wneud braidd yn rhy amlwg yn rhy fuan ac mae Dad yn dweud na eto. Dewch i ni roi un cynnig eto arni:

CHRIS: Where have you been, Dewi? You look all sweaty.

DEWI: Been exercising in the garden, Dad.

DAD: All over my lawn! I've just spent a hundred quid re-seeding that.

DEWI: I know Dad, but Miss Morgan says we gotta do daily exercise during lockdown or we'll get ill.

DAD: Right. We'll go down the park then. Go and get your bike.

DEWI: I can't though Dad. It's too small for me. It's not my fault I'm growin so fast is it? Maybe...as it's my birthday...?

CHRIS: Oh alright, you can have a bike, anything for a quiet life.

DEWI: Thanks Dad.

CHRIS: We'll ave a look online. See if there's any sales.

Gan ddefnyddio'r peth mae ar eich cymeriad ei eisiau fwyaf, rhowch gynnig ar sgrifennu golygfa lle mae'n ceisio cael be sydd arno'i eisiau.

TIP ARDDERCHOG: Os na ddaw eich cymeriad chi i ben pan fyddwch chi'n sgrifennu eich golygfa, rhowch gynnig ar ei wneud yn dipyn clyfrach yn y ffordd mae'n siarad ac yn ymddwyn ac ail-sgrifennwch yr olygfa.



Iaith a Geiriau

Mae pawb yn siarad yn wahanol. Mae gynnyn ni i gyd eiriau rydyn ni'n eu hoffi, neu sŵn a seiniau rydyn ni'n eu gwneud fwy na bydd pobl eraill.

Pan fyddwch chi'n ceisio creu cymeriadau, mae'n hollbwysig i chi wrando ar bobl yn siarad, a cheisio copïo hynny pan fyddwch chi'n sgrifennu golygfa.

Am un diwrnod, gwrandwch yn astud ar y ffordd mae tri o wahanol bobl yn siarad.

Gallen nhw fod eich mam a'ch tad, brodyr a chwiorydd, eich cymdogion neu'ch ffrindiau neu efallai hyd yn oed rhywun ar y teledu.

Tarwch ar bapur pa eiriau maen nhw'n eu dweud yn aml, a hefyd sut maen nhw'n siarad.

Be sylwoch chi arno?

- Ydyn nhw'n siarad yn dawel ac yn gwrtais?
- Ydyn nhw'n siarad ychydig iawn - a dim ond yn rhoi ateb ie neu nage i unrhyw gwestiynau?
- Fyddan nhw'n dweud...ym...dipyn go lew...ym...?
- Ydyn nhw'n ateb â chwestiynau?
- Oes yna eiriau neu ymadroddion bach maen nhw'n eu defnyddio drwy'r amser?

Be am sut maen nhw'n siarad? Mae gan bawb ryw rythm i'r ffordd maen nhw'n siarad.

Rythm ydi'r patrwm sain y byddwn ni'n ei wneud pan siaradwn ni.



Iaith a Geiriau

Er enghraifft

Cymharwch y ddwy alwad ffôn wahanol yma:



Chris yn ateb y ffôn

CHRIS: Tom! Where've you been?...seriously, your mother has been worried sick. Sick, I tell you. Get yourself home. Now. Five Minutes. D'you understand?

Chris yn gorffen yr alwad

Cerys yn ateb y ffôn

CERYS: Tom? Tom?...O, diolch i Dduw
Mae'n galw ar Chris

CERYS: She's safe Chris, she's alright....She's safe Chris, she's alright....Lle wyt ti di bod? Wedes di bum munud, jest i fynd a'r llyfr na i dy Martha, a mai di bod bron iawn i awr. Alle unrywun fod wedi cael gafael arnat ti, mae na bobl drwg yn bobman.



Ym mha ffordd mae'r galwadau ffôn yn wahanol?

Allwch chi weld sut mae rhythm eu ffyrdd o siarad yn wahanol iawn i'w gilydd?

Meddyliwch am sut y byddai eich cymeriad yn siarad.

Meddyliwch am gymeriad arall mae'n ei nabod – fe allai fod yn ffrind, un o'i rieni, cymydog, athro.

Dychmygwch fod y ddau berson yma mewn caffi. Fe allai fod o help petai'r ddau gymeriad yn wahanol iawn i'w gilydd.

Mae wetar yn dod i ofyn iddyn nhw be gymeran nhw.

- Sut maen nhw'n siarad â'r wetar?
- Sut maen nhw'n siarad â'i gilydd?
- Meddyliwch am be sydd ar bob un eisiau.

Efallai bod ar un cymeriad eisiau ei ddangos ei hun, neu efallai nad oes arno eisiau bod yno.

Efallai bod arno eisiau bod yn y parc ond ei fod yn methu dweud hynny, efallai mai pwdin yn hytrach na chinio sydd arno eisiau.

Rhowch gynnig ar sgrifennu'r olygfa yma.

TIP ARDDERCHOG: Cofiwch fod ar y cymeriadau eisiau rhywbeth, eu bod bob amser yn siarad mewn ffordd neilltuol, gan ddefnyddio rhythm a geiriau neilltuol.



Crynodeb

Dylai cymeriadau swnio'n naturiol pan fyddan nhw'n siarad.

Mae'n bwysig bod ar gymeriadau eisiau neu angen rhywbeth am fod hyn yn gwthio'r sgwrs.

Gwnewch eich gorau i beidio â defnyddio dialog ormod i egluro pethau sydd wedi digwydd o'r blaen.

Cofiwch fod pawb yn siarad mewn ffordd arbennig, â geiriau ac ymadroddion maen nhw'n eu defnyddio bob amser yn ogystal â rhythm pendant.

